**Tasg 1**

# Chwaraeon Ninja

## Chwaraeon Ninja

Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Pa un o'r brawddegau yma fyddai'n crynhoi agwedd Erin at chwaraeon **orau** yn eich barn chi?

- ☐ a. Mae hi wrth ei bodd gyda phob math o chwaraeon.
- ☐ b. Mae hi'n meddwl bod chwaraeon yn bwysig.
- ☐ c. Mae hi'n casáu chwaraeon.
- ☐ ch. Mae chwaraeon yn ddiflas tu hwnt.

Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Pa un o'r brawddegau hyn sy'n crynhoi agwedd Idris tuag at chwaraeon **orau** yn eich barn chi?

- ☐ a. Mae pob sesiwn chwaraeon yn yr ysgol yn ddiflas.
- ☐ b. Mae addysg gorfforol yn gallu gwneud i bobl ifanc gasáu chwaraeon.
- ☐ c. Mae chwaraeon yn dda i chi.
- ☐ ch. Mae addysg gorfforol yn wastraff amser.

Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Pwy yn y fforwm sydd wedi cymryd rhan mewn chwaraeon Ninja yn eich barn chi?

- ☐ a. Erin
- ☐ b. Rhys
- ☐ c. Matt
- ☐ ch. Catrin

Rhowch resymau dros eich ateb.

4. Mae un o’r bobl ifanc yn gweithio mewn canolfan hamdden. Pa un yn eich barn chi?

- ☐ a. Erin
- ☐ b. Rhys
- ☐ c. Idris
- ☐ ch. Catrin

Rhowch resymau dros eich ateb.

5. Rhestrwch y chwaraeon Ninja sy’n cael eu henwi neu eu disgrifio yn y darn.

Gweiddi

6. Pa gampau yn y rhestr hoffech chi eu gwneud?

Rhowch resymau dros eich ateb.

7. Meddyliwch am **ddau** ansoddair i ddisgrifio chwaraeon Ninja.

8. O ble mae'r gair 'Ninja' yn dod? Beth yw ystyr gwreiddiol y gair? Chwiliwch am wybodaeth i ateb y cwestiynau hyn.

9. Cymharwch eich atebion chi ag atebion pobl eraill yn eich grŵp.